Cardiff Students' Union
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

# Adroddiad Teithio ar Leoliad

## Cyflwyniad

Mae myfyrwyr wedi profi pwysau sylweddol mewn blynyddoedd diweddar gyda straen ar eu lles a chyllid o ganlyniad i COVID-19 a'r argyfwng costau byw. Mae'r straen ariannol yn enwedig wedi cael ei ymchwilio gan Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr, ac rydym wedi crynhoi eu darganfyddiadau yn yr adroddiad yma.

Un o'r pethau sy'n effeithio ar fyfyrwyr meddygol yw'r model teithio ar leoliad, fel sydd wedi'i amlinellu yn y Polisi Teithio ar Leoliadau Clinigol, sydd wedi bod yn broblem ers tro ac sy'n ychwanegu at y pwysau ar fyfyrwyr. Penderfynon ni gynnal arolwg er mwyn cael gwell ddealltwriaeth o'r broblem ac er mwyn ddod o hyd i ffyrdd y gallai'r polisi gael ei wella, i helpu lleihau'r pwysau ar fyfyrwyr.  Rydym wedi crynhoi'r darganfyddiadau ac wedi defnyddio'r ymatebion i greu cyfres o awgrymiadau i'r Ysgol Meddygaeth (ac, os fydd angen, i'r Brifysgol).

Mae'r Cytundeb Perthynas rhwng y Brifysgol a'r Undeb Myfyrwyr yn datgan ein bod yn "rhannu ymrwymiad i ddatblygu a gwella profiad myfyrwyr." Mae'r ddogfen yma wedi cael ei greu er mwyn llywio dyfodol trefniadau teithio ar gyfer lleoliadau clinigol. Edrychwn ymlaen at drafod yr adborth yma gyda chi ar y diwedd.

Cofion cynnes,

Alex Meers, Is-lywydd Campws Parc y Mynydd Bychan
Oliver Silgram, Llywydd MedSoc Caerdydd 23-24

## Crynodeb o'r Polisi Presennol

Mae'r polisi Teithio ar Leoliadau Clinigol 2023-2024 presennol yn amlinellu polisi Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd ar gyfer unrhyw ad-daliadau am deithio hanfodol yn ystod lleoliadau clinigol. O ganlyniad i strwythur cwrs C21, a'r wahanol lefelau o leoliadau clinigol sydd yn ofynnol, mae'r ddogfen yn amlinellu'r wahanol ad-daliadau sydd ar gael i fyfyrwyr am Gyfnod 1 (Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2); Blwyddyn 3; Blwyddyn 4; Blwyddyn 5.

Yn y cyflwyniad mae'r polisi yn datgan (yn berthnasol i bob myfyriwr):

*"Bydd myfyrwyr yn cael eu gwahodd i gofrestru ar gyfer trafnidiaeth a ddarparwyd am ddim gan y brifysgol cyn pob cyfnod. Os nad yw myfyrwyr yn cofrestru am y drafnidiaeth yma, mae disgwyl iddynt gyrraedd eu lleoliad ar gost i'w hun. O ganlyniad i'r effaith amgylcheddol a'r gost ariannol i'r brifysgol, bydd myfyrwyr sy'n methu troi i fyny dwywaith heb roi isafswm o 5 diwrnod o rybudd cyn dyddiad y daith yn cael mater proffesiynoldeb wedi'i godi yn eu herbyn ac wedi'i gyflwyno i'r Pwyllgor Proffesiynoldeb gan y Cyfarwyddwr Blwyddyn. Os fydd hyn yn digwydd mwy na dwywaith, ni fydd trafnidiaeth ar gael i unigolion yn y dyfodol a bydd disgwyl iddynt gyrraedd eu lleoliadau ar ben eu hun. Bydd y niferoedd sy'n cofrestru a gwir niferoedd y teithwyr yn cael eu monitro."* (1)

Os *"na fydd digon o fyfyrwyr yn gofyn am drafnidiaeth i'w wneud yn ymarferol yn ariannol, bydd disgyblion yn derbyn neges gan y tîm lleoliadau yn eu hysbysu am hyn a'r opsiynau trafnidiaeth sydd ar gael iddynt."* Ni fydd myfyrwyr yn derbyn ad-daliadau os ydynt yn dewis cymryd trafnidiaeth gyhoeddus pan fod trafnidiaeth y brifysgol yn rhedeg. (1)

Wedi'u cyfuno, y polisi presennol ar gyfer pob carfan o fyfyrwyr 2023-2024, sy'n amrywio o'r polisi cyffredinol, yw:

**Cyfnod 1: Blwyddyn 1 a 2 (Blynyddoedd Rhag-Glinigol)**

- Lleoliadau Sgiliau Clinigol:

*"Mae trafnidiaeth yn cael ei ddarparu ar gyfer Sgiliau Clinigol ymhob canolfan: Tywysoges Cymru, Caerdydd a'r Fro, Keir Hardy a Chanolfan Gwent De Ddwyrain Cymru."* (1)

- Lleoliadau Meddyg Teulu De Cymru:

*"Rhaid i fyfyrwyr wedi'u lleoli gyda meddygon teulu yng Nghaerdydd ac ardaloedd cyfagos trefnu trafnidiaeth eu hun a ni fyddan nhw'n derbyn ad-daliadau am hyn. I rheini tu allan i Gaerdydd, mae'r ysgol yn darparu bws am ddim i ac yn ôl o'r canolfan penodol. Os na fydd eich meddyg teulu o fewn pellter cerdded i'ch canolfan bydd tacsi yn cael ei drefnu i'ch cludo i ac o'ch lleoliad meddyg teulu."* (1)

**Cyfnod 2: Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4**

- CD1 yn y gymuned (Blwyddyn 3):

*"Gall myfyrwyr gwneud cais am ad-daliad ar gyfer trafnidiaeth i leoliadau ac eithrio'r rheini gyda lleoliadau yng Nghaerdydd a'r Fro."* (1)

- Prosiect Oncoleg a'r Llwybr Cleifion (Blwyddyn 3):

*"Ni fydd unrhyw drafnidiaeth nag ad-daliadau'n cael eu darparu gan Brifysgol Caerdydd fel rhan o'r cwrs. Gall myfyrwyr gwneud cais am ad-daliad drwy lwybr hawlio Bwrsari'r GIG os ydynt yn gymwys."* (1)

- Ffrwd Gofalwyr (Blwyddyn 3):

*"Ni all y gost o deithio i ac yn ôl o leoliadau ysbyty a mannau dysgu'r brifysgol cael ei hawlio'n ôl."* (1)

- Lleoliadau Oddi Adref yng Ngorllewin a Gogledd Cymru (Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4):

*"Bydd myfyrwyr yn teithio i Ogledd Cymru ar y dydd Sul cyn i'r lleoliad ddechrau. Os yw cyfnod y lleoliad yn disgyn ar ddwy ochr y Nadolig bydd taith dychwelyd ychwanegol yn cael ei gynnig. Ni all myfyrwyr sy'n dewis peidio defnyddio'r drafnidiaeth a ddarparwyd gan yr Ysgol Meddygaeth hawlio ad-daliad am eu costau teithio drwy Brifysgol Caerdydd."* (1)

- Trafnidiaeth o ganolfannau penodol i leoliadau o fewn eu bwrdd iechyd yn ôl amserlen (Blwyddyn 3 a Blwyddyn 4):

Bydd trafnidiaeth, megis tacsis, yn cael ei ddarparu i ac o'r ganolfan i safle'r lleoliad ac wedi'i thalu gan y ganolfan.

- Addysg tu allan i oriau arferol (Blwyddyn 4):


*"Os fydd gofyn i fyfyrwyr mynychu ysbytai tu allan i oriau dysgu arferol (wedi 5yh ac ar benwythnosau), a'u bod methu defnyddio bws y brifysgol o ganlyniad, bydd yn cael ei nodi gan swyddog israddedig y ganolfan a bydd yn bosib hawlio ad-daliad teithio ar gyfer yr adegau yma. Os nad yw eich enw yn ymddangos ar restr IR Swyddog y Ganolfan, yna ni fydd ad-daliad yn cael ei ganiatáu."* (1)

**Cyfnod 3: Blwyddyn 5**

Bydd pob myfyriwr yn y pumed flwyddyn unai'n ariannu eu haddysg fel myfyriwr ôl-raddedig neu fyfyriwr rhyngwladol, neu'n derbyn bwrsari gan y GIG. O hyn ymlaen, ni fydd trafnidiaeth yn cael ei ddarparu i leoliadau gan Brifysgol Caerdydd i unrhyw fyfyriwr yn y pumed flwyddyn. *"Gall cost trafnidiaeth i leoliadau cael ei ad-dalu trwy gynllun bwrsari'r GIG os yw cyfanswm cost trafnidiaeth y myfyriwr o'i llety arferol i'w lleoliad yn uwch na'u cost arferol o deithio i ac o'r brifysgol."* (2)

Nodwch, nid yw'r crynodeb yma o'r Polisi Teithio ar Leoliadau Clinigol presennol yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â myfyrwyr C21nW.


## Ein Harolwg




I gasglu data ar farn myfyrwyr am y polisi, cafodd arolwg ei ddatblygu gan Medsoc Caerdydd ac Is-lywydd Parc y Mynydd Bychan, Alex Meers. Cafodd ei hyrwyddo'n helaeth gan Medsoc Caerdydd. Rydym yn hyderus cyrhaeddodd sampl cynrychioliadol o ganlyniad i'r gyfran eithriadol o fyfyrwyr meddygol sy'n aelodau o'r gymdeithas. Mae hyn wedi'i gefnogi gan ddosbarthiad y rhai a ymatebodd ar draws gwahanol gyfnodau'r cwrs, gydag ychydig yn fwy o'r blynyddoedd hŷn (fel y disgwylir gan fod ganddynt fwy o brofiad o'r system).

Gwnaeth cyfanswm o 176 o fyfyrwyr gwblhau'r arolwg dros gyfnod o 1 mis a 7 diwrnod: 46 o Flwyddyn 3, 64 o Flwyddyn 4, 58 o Flwyddyn 5 ac 8 Myfyriwr Rhyngosodol yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-2024.

Roedd ymatebion i'r cwestiwn "Beth yw'r prif fath o drafnidiaeth rydych chi'n ei ddefnyddio i gyrraedd i a theithio o leoliadau yn ne ddwyrain Cymru?" yn dangos fod bron tri chwarter (74.4%) ddim yn defnyddio bws lleoliadau'r ysgol feddygol, gyda chyfran fawr (63.6%) yn gyrru neu'n rhannu car.




Gwnaeth y cwestiwn "Beth yw'r prif fath o drafnidiaeth rydych yn ei ddefnyddio neu'n golygu ei ddefnyddio i gyrraedd lleoliadau yng ngorllewin a gogledd Cymru?" ildio dosbarthiad tebyg i'r un cwestiwn ar gyfer de ddwyrain Cymru.

Gwnaethon ni hefyd ofyn i ymatebwyr nad sy'n defnyddio'r bws lleoliadau yn ne ddwyrain Cymru i egluro'r ffactorau sy'n cyfrannu i'r penderfyniad yna. Gwnaethon ni ddarparu rhai sylwadau a ddewiswyd ymlaen llaw i ddarganfod pa gwynion cyffredin oedd mwyaf cyffredin yn ymarferol. Yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd:

- Amser gadael o YAC (118 o ymatebion)
- Amser gadael o'r ysbyty lleoliad (131 o ymatebion)
- Hyblygrwydd a'r polisi canslo (116 o ymatebion)
- Pellter ychwanegol o adref i YAC (79 o ymatebion)
- Amser teithio (57 o ymatebion)

Roedd hefyd gan yr atebwyr opsiwn i fanylu ar faint roedden nhw'n ei wario'n wythnosol ar deithio mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus, eto yn ne ddwyrain Cymru. Gan fod yr adran yma'n opsiynol a'n testun rhydd, gwnaeth llawer ddim rhoi ffigwr clir neu gwnaethant roi ystod. Roedd 76 o ymatebion rhifol ar gyfer ceir a 27 i drafnidiaeth gyhoeddus, gan gymryd canolbwynt unrhyw ystodau cafodd eu rhoi. Gwnaeth hyn rhoi cost gymedrig o £34.11 yr wythnos mewn costau petrol a £26.96 ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus.

Penderfynon ni beidio gofyn rhagor o gwestiynau am faterion penodol yng ngogledd Cymru a gorllewin Cymru oherwydd yr amrywiaeth sylweddol mewn amodau personol – nid ydym yn hyderus y byddai'r arolwg yma wedi cael cyrhaeddiad digonol er mwyn cyrraedd casgliadau ystyrlon o'r data canlyniadol.

I gynnwys mesur o fodlonrwydd myfyrwyr gyda'r system bresennol yn gyffredinol, gofynnon ni "Ydych chi'n meddwl bod yr ysgol meddygaeth yn darparu digon o opsiynau trafnidiaeth i leoliadau ar hyn o bryd?" Gyda 91% yn ateb "Nac ydw", bydden yn dadlau fod myfyrwyr yn teimlo fod angen clir ar gyfer gwella'r polisi yma.

Gorffennon ni'r arolwg gyda chyfres o gwestiynau testun agored er mwyn dysgu am bryderon cyffredinol ynghylch y polisi a chasglu awgrymiadau am sut allai cael ei wella. Mae canlyniadau'r cwestiynau yma wedi cael eu defnyddio wrth i ni ddylunio'n hargymhellion, ond rydym yn fodlon rhannu'r data os fyddai hyn o fudd.

## Data Cyd-destunol

Gwnaeth yr Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr yng Nghymru cyhoeddi adroddiad ym Mehefin 2023, yn manylu ar ganfyddiadau arolwg cafodd ei gynnal yn gynharach yn y flwyddyn. Roedd eu harolwg yn ymchwilio i effaith yr argyfwng costau byw ar fyfyrwyr, ac rydym yn credu bod eu canfyddiadau yn cynnig cyd-destun gwerthfawr i'r pwysau presennol mae myfyrwyr yn ei wynebu. (3) Roedd rhai pwyntiau perthnasol yn cynnwys:

- Mae 57% o fyfyrwyr yn gweithio ochr yn ochr ag astudio; i fyfyrwyr meddygol mae hyn bron byth yn opsiwn, o ganlyniad i ymrwymiadau'r rhaglen a'r amser sylweddol sy'n cael ei wario tu allan i Gaerdydd. (3)
- Mae bron pob myfyriwr yn pryderu am gyllid i ryw raddau; gyda myfyrwyr meddygol yn fwy tebygol o brofi iechyd meddwl gwael, mae hyn yn straen ychwanegol ar les myfyrwyr. (3)
- Pryderu am gostau byw yw'r rheswm mwyaf cyffredin i rheini sy'n ystyried, neu sydd wedi, tynnu allan o'u cwrs. (3)
- Mae 32% o fyfyrwyr methu talu rhent, a 36% methu talu biliau. (3)
- Yn gyffredinol mae gan fyfyrwyr £100 neu'n llai ar ôl wedi costau llety; mae gwerth nodi fod hyn yn cyfateb i tua 3 neu 4 wythnos o deithio annibynnol i leoliadau ar gyfartaledd. (3)

Mae canfyddiadau'r arolwg yn ysgytwol ac maent yn amlygu cymaint o broblem yw'r argyfwng costau byw i fyfyrwyr. Mae'r pwysau sylweddol mae'n ei rhoi ar fyfyrwyr, wedi'i waethygu gan y cyllid cyfyngedig ar gael i fyfyrwyr tuag at ddiwedd yr MBBCh, yn gwneud nawr yn adeg hollbwysig i gymryd camau er mwyn dileu'r rhwystrau ariannol i addysg.

## Argymhellion

Gan ystyried y data a gyflwynwyd uchod, rydym yn awgrymu bod yr Ysgol Meddygaeth yn:

1. Ad-dalu myfyrwyr am gostau teithio annibynnol i leoliadau (gan gynnwys mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus)
2. Adolygu cyfraddau milltiredd gan ystyried costau tanwydd presennol, o ganlyniad i gyfraddau chwyddiant a'r argyfwng costau byw.
3. Cyflwyno system ar gyfer mynegi diddordeb mewn rhannu car i leoliadau ysbyty yn Ne Cymru (Byrddau iechyd Caerdydd a'r Fro, Cwm Taf, Aneurin Bevan a Phrifysgol Bae Abertawe), gyda hyblygrwydd ar gyfer ad-daliadau trafnidiaeth gyhoeddus lle bod gyrwyr ceir ddim ar gael o ganlyniad i salwch.
4. Parhau a gwella'r gwasanaeth bws presennol drwy:
    a. Sicrhau ei fod yn economegol i'r brifysgol ac yn ecogyfeillgar yn ddibynnol ar y nifer o fyfyrwyr sy'n defnyddio'r modd yma o drafnidiaeth. Gan ystyried y niferoedd isel sy'n cofrestru, bydden yn awgrymu taw bysiau mini fyddai'r datrysiad mwyaf ymarferol.
    b. Gwella'r safon o gyfathrebu ynglŷn â chanslo.
5. Cynnal ymchwil pellach i:
    a. Y nifer o bobl sy'n cofrestru ar gyfer y bysiau lleoliadau presennol, gan ddefnyddio data ar gyfraddau cofrestru, defnydd a myfyrwyr sydd wedi'u cofrestru.
    b. Safbwynt myfyrwyr ar drafnidiaeth lleoliadau yng ngogledd a gorllewin Cymru (Byrddau Iechyd Addysgu Powys, Hywel Dda a Betsi Cadwaladr), er mwyn gwella dealltwriaeth o'r problemau a gwelliannau posib.
6. Adolygu trefniadau trafnidiaeth ar gyfer:
    a. Lleoliadau meddyg teulu yng Nghaerdydd a'r Fro, gan nad oes modd cerdded i nifer o'r lleoliadau (megis Y Barri).
    b. Y Prosiect Oncoleg a'r Llwybr Cleifion, gan fydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr trydedd flwyddyn ddim yn derbyn bwrsari'r GIG.
    c. Myfyrwyr rhyngwladol a myfyrwyr ôl-raddedig sy'n ariannu eu haddysg eu hun, fydd fel arfer ddim yn gymwys ar gyfer bwrsari'r GIG.
7. Gwella cyfathrebu a thryloywder ynglŷn â'r Polisi Teithio ar Leoliadau Clinigol er mwyn gwneud trefniadau'n gliriach i fyfyrwyr.
8. Ymestyn yr ad-daliadau ar gyfer teithio'n ôl o leoliadau yng Ngogledd Cymru am fwy na 4 wythnos wrth o leiaf 1 siwrne ychwanegol er mwyn helpu mynd i'r afael ag unigrwydd a chynnal y cysylltiad gyda Chaerdydd a'r Brifysgol.

Rydym yn cydnabod efallai bod un neu mwy o'r argymhellion yma tu allan i allu'r Ysgol Meddygaeth ond rydym yn gofyn fod pob un yn cael ei ystyried, oherwydd gall pob un cael ei ystyried yn gam ymlaen i fyfyrwyr. Rhag ofn fod cyllid yn ffactor cyfyngol, rydym yn fodlon gweithio mewn partneriaeth â'r Brifysgol i ddarganfod datrysiad.

## Cyfeirnodau


1. Ysgol Meddygaeth Prifysgol Caerdydd. 2023. *Clinical Placements Travel Policy 2023-2024.* Ar gael ar: https://cf.sharepoint.com/teams/PlacementTravelCampaign/Shared%20Documents/Forms/AllItems.aspx?id=%2Fteams%2FPlacementTravelCampaign%2FShared%20Documents%2FGeneral%2FClinical%20Placements%20Travel%20Policy%202023-24%2Epdf&parent=%2Fteams%2FPlacementTravelCampaign%2FShared%20Documents%2FGeneral&p=true&ga=1 [Accessed: 24 September 2023].
2. NHS Business Services Authority. 2021. *Guide to Travel and Dual Accommodation Expenses for NHS Bursary students and universities.* Ar gael ar: *https://www.nhsbsa.nhs.uk/sites/default/files/2021-09/Guide%20to%20Travel%20and%20Dual%20Accommodation%20Expenses%20for%20NHS%20Bursary%20students%20and%20universities%20%28V1%29%2009.2021.pdf* [Accessed:24 September 2023].
3. Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr. 2023. *NUS (National Union of Students) Wales Cost of Living Report Summer 2023. Ar gael ar:* *https://assets.nationbuilder.com/nus/pages/669/attachments/original/1692109057/NUS_Wales_Cost_of_Living_Report_Summer_2023.pdf?1692109057* [Accessed: 24 September 2023].